***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 528

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017

**Diwygiadau mewn perthynas â ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau tybiedig**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 10(7) mewnosoder—

"(7A) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (7) at yr awdurdod perthnasol ar yr un pryd ag yr anfonir yr hysbysiad at yr apelydd.

(7B) Rhaid i'r awdurdod perthnasol hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) pan fydd yr apelydd wedi talu'r ffi yn unol â pharagraffau (6) a (7); neu

(b) os nad yw'r apelydd wedi talu'r ffi o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (7)."

(**1**) O.S. 2015/1522 (Cy. 179), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.